**Dogfen ymgynghori**

# B5129 – Arbed Amser Siwrneiau a Lonydd Bysiau Arfaethedig

Dyddiad Cyhoeddi: 27 Chwefror 2019
Ymatebion erbyn: 22 Mawrth 2019

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

**Trosolwg**

Trwy gyllid gan Lywodraeth Cymru, mae Cyngor Sir y Fflint yn darparu datrysiad trafnidiaeth integredig ar gyfer Sir y Fflint. Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar lonydd bysiau arfaethedig ar hyd y B5129 o Queensferry i Shotton Lane a mesurau arbed amser siwrneiau o Shotton i Gei Connah.

Hoffwn glywed eich barn ar y cynigion hyn ac rydym wedi cynnwys cyfres o gwestiynau penodol lle croesawir ymateb.

**Sut i ymateb**

Llenwch a dychwelwch yr 'holiadur ffurflen ymateb' i'r cyfeiriad isod erbyn 22 Mawrth 2019.

**Print bras, Braille a fersiynau mewn ieithoedd amgen o'r ddogfen hon ar gael ar eich cais.**

**Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig**

Mae'r ddogfen ar gael yn:

http://siryfflint.gov.uk

**Manylion Cyswllt**

I gael unrhyw wybodaeth ychwanegol:

E-bost: lee.shone@flintshire.gov.uk

A wnewch chi gynnwys 'B5129 - Arbed Amser Siwrneiau' ar y llinell testun.

Swydd:

Lee Shone

Cyngor Sir y Fflint

Depo Alltami

Ffordd yr Wyddgrug

Alltami

Sir y Fflint

CH7 6LG

**Cyflwyniad**

Mae Cyngor Sir y Fflint, drwy gyllid gan Lywodraeth Cymru, wedi datblygu nifer o fesurau i oresgyn y cynnydd mewn traffig ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy a’r ardaloedd cyfagos.

Mae’r mesurau hyn hefyd yn cefnogi cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Metro Gogledd Ddwyrain Cymru fydd yn bwysig i gysylltu pobl, cymunedau a busnesau ar gyfer swyddi, cyfleusterau a gwasanaethau ar draws y rhanbarth.

Bydd Metro Gogledd Ddwyrain Cymru yn darparu canolbwynt cludiant integredig o fudd i deithwyr a busnesau o fewn Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy, y Parth Menter ehangach a thu hwnt.

**Cefndir**

Isod ceir rhestr o gynlluniau / prosiectau sydd naill ai wedi eu cyflenwi, ar y gweill neu'n ddyheadau i greu Datrysiad Cludiant Integredig.

- **Isadeiledd Teithio Llesol a Safleoedd Bysiau ar draws Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy**
  Parth 3 - Cwblhawyd
  Parth 2 – Gwaith ar y gweill

- **Gosod signalau ar yr A548 / Cylchfan Parkway**
  Disgwylir i waith ddechrau ym mis Mawrth 2019

- **Twf Nifer Teithwyr (Coridor Glannau Dyfrdwy)**
  Tocynnau integredig rhwng darparwyr gwasanaethau bysiau
  Prynu 6 bws safonol Euro 6 Newydd – cwblhawyd ac yn weithredol

- **Arbed Amser ar Siwrneiau Bysiau (A548 ffin Sir Ddinbych i’r B5129 Queensferry)**
  a) Uwchraddio Signalau Traffig – Y Fflint a Maes Glas – Rhaglennwyd ar gyfer 2019/20
  b) Blaenoriaethu safleoedd bysiau (Gronant i Tan Lan) – Rhaglennwyd ar gyfer 2019/20
  c) Culhau Ffordd Osgoi presennol Bagillt i greu lle ar gyfer symudiadau bysiau – rhaglennwyd ar gyfer 2019/20
  d) Cyfyngiadau parcio arfaethedig ar hyd y B5129, Cei Connah
  e) Mesurau Arbed Amser ar Siwrneiau ar gyfer Stryd Fawr Shotton – Ymgysylltu â’r cyhoedd – Yn ddibynnol ar ganlyniad yr ymgynghoriad, ei gyflenwi yn ystod 2020/21
  f) Lonydd penodol ar gyfer Bysiau a Beiciau o Shotton Lane i Queensferry – Yn ddibynnol ar ganlyniad yr ymgynghoriad yn ystod 2019/20
- **Parcio a Theithio Ystâd Ddiwydiannol Glannau Dyfrdwy Parth 2**

- **Parcffordd Glannau Dyfrdwy**
  Gorsaf Drenau Arfaethedig ar Barc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy

**Ymgynghoriad ar y Cynllun**

Mae'r ymgynghoriad wedi'i ganolbwyntio ar arbed amser siwrneiau a lonydd bysiau a beicio dynodedig ar hyd y B5129 rhwng Queensferry a Shotton.

Mae'r cyfnod ymgynghori ar agor tan hanner nos ar 22 Mawrth 2019.

**Pam fod angen Mesurau Arbed Amser Siwrneiau ar hyd Stryd Fawr Shotton a Lonydd Bysiau rhwng Queensferry a Shotton Lane?**

Oherwydd llif traffig cynyddol ar ffyrdd Sir y Fflint, mae angen i'r Awdurdod ddatblygu dulliau cludiant deniadol ac amgen. Ar hyn o bryd, mae tagfeydd dyddiol sy'n effeithio ar Shotton a Queensferry yn rhoi tystiolaeth o'r angen i fynd i'r afael â'r materion a wynebir bob dydd gan gymudwyr, trigolion a busnesau.

- Mae mwy na 14,000 o gerbydau (Cyfartaledd Blynyddol y llif dyddiol) yn teithio ar hyd Coridor Glannau Dyfrdwy bob dydd.
- Gall tagfeydd ar yr awr brysuraf olygu fod defnyddwyr cludiant cyhoeddus yn treulio amser gormodol yn teithio pellter cymharol fyr.
- Dim mesurau beicio cyson o Shotton Lane i Queensferry.
- Mae nifer o'r defnyddwyr yn teithio i swyddi yn ardal Glannau Dyfrdwy.

**Canfod ateb**

Drwy weithio gydag ymgynghorwyr ac ymarferion modelu traffig caeth, datblygwyd y dewis o gyflwyno lôn fysiau o Queensferry i Shotton Lane ac Arbedion ar Amseroedd Siwrneiau ar hyd y B5129 rhwng Pont Reilffordd Shotton a Brook Road, Shotton.

Mae'r broses uchod yn sicrhau fod y cynigion:

— Yn dangos gwerth am arian
— Yn cynnig bendithion cludiant, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol
— Yn cynnig cymaint o fudd â phosibl

Mae ymarferion modelu traffig yn nodi, yn ystod oriau prysuraf, y bydd taith fws ar hyd y B5129 o Shotton i Queensferry yn gostwng o rhwng 5 ac 8 munud, heb gael unrhyw effaith niweidiol ar ddefnyddwyr eraill y ffordd. Wrth symud ymlaen, bydd y cynnig yn cynnig dewisiadau cynaliadwy amgen i ddefnyddwyr y ffordd, gan leihau'r ddibyniaeth ar deithiau teithwyr unigol neu deithiau lle caiff cerbydau eu rhannu.

Bydd cynnig darpariaeth feicio benodol ar hyd lonydd bysiau a beiciau hefyd yn caniatáu defnyddwyr i gael y dewis o ddull teithio gweithredol diogel, gan efallai arwain at ostyngiad yn nifer y ceir ar ffordd gyda thagfeydd sylweddol.

Nod y cynllun yw gwella mynediad i safleoedd cyflogaeth, cynnig dulliau teithio amgen a lleihau'r tagfeydd a wynebir ar hyn o bryd.

**Ein cynllun arfaethedig**

Mae’r cynllun arfaethedig yn cynnwys:

<u>Lonydd Bysiau</u>

- Lonydd penodol ar gyfer bysiau a beiciau o Shotton Lane i Queensferry
- Gosod cyffordd gyda signalau i gael mynd i mewn/ allan o Ganolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy gyda chyfnod i gerddwyr wedi ei gynnwys yn y golau ar gyfer mynediad i gerddwyr ar draws y B5129.
- Dymchwel pont droed bresennol ger Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy.

CYNLLUN A1, A2 ac A3





**Notes**

1. THIS DRAWING SHOULD BE READ IN RELATION TO THE SUBJECT OF THE TITLE ONLY. OTHER INFORMATION SHOWN ON THE DRAWING IS TO BE CONSIDERED INDICATIVE ONLY. REFERENCE SHOULD BE MADE TO APPROPRIATE DRAWING SERIES/SPECIFICATIONS FOR OTHER INFORMATION
2. ALL DIMENSIONS ARE IN METRES UNLESS SPECIFIED OTHERWISE

KEY:

- CARRIAGEWAY
- REFUGE
- HARD STANDING
- GRASS
- BUILDINGS
- BUS LANE
- CYCLE LANE
- WATER
- PATHWAY
- BRICK
- HEADWALL
- TACTILE
- BUS STOP

**Pell Frischmann**

9 ACORN BUSINESS PARK, STOCKPORT, SK4 1AE

Client: Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council

Project: SHOTTON BUS LANES

Drawing Title: PRESENTATION LAYOUT SHEET 2 OF 3

| Scale | Drawn | Designed | Checked | Approved |
|---|---|---|---|---|
| 1:500 | C. RABBETT | J. WALSH | J. WALSH | S. DAVIES |
| Original Drawing Size: A1 | 23/01/2019 | 23/01/2019 | 08/02/2019 | 08/02/2019 |

Drawing Status: FOR INFORMATION

Drawing Number: 100395 - PF - HGN - 01 - DR - CH - 0002

Revision: P02




**Notes**

1. THIS DRAWING SHOULD BE READ IN RELATION TO THE SUBJECT OF THE TITLE ONLY. OTHER INFORMATION SHOWN ON THE DRAWING IS TO BE CONSIDERED INDICATIVE ONLY. REFERENCE SHOULD BE MADE TO APPROPRIATE DRAWING SERIES/SPECIFICATIONS FOR OTHER INFORMATION
2. ALL DIMENSIONS ARE IN METRES UNLESS SPECIFIED OTHERWISE

KEY:

- CARRIAGEWAY
- REFUGE
- HARD STANDING
- GRASS
- BUILDINGS
- BUS LANE
- CYCLE LANE
- WATER
- PATHWAY
- BRICK
- HEADWALL
- TACTILE
- BUS STOP

Pell Frischmann

Client: Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council

Project: SHOTTON BUS LANES

Drawing Title: PRESENTATION LAYOUT SHEET 3 OF 3

| Scale | Drawn | Designed | Checked | Approved |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| 1:500 | C. RABBITT | J. WALSH | J. WALSH | N. DAVIES |
| A1 | 23/01/2019 | 23/01/2019 | 08/02/2019 | 08/02/2019 |

Drawing Status: FOR INFORMATION

Drawing Number: 103069 - PF - HGN - 01 - DR - CH - 0003 Revision: P02

DRAWING FILE

Arbed Amser ar Siwrneiau - Stryd Fawr Shotton

- Ailasesu systemau Unffordd presennol
- Diwygio darpariaethau troi i’r dde
- Cynnal profiad siopwyr
- Cynllun ffordd – ffurfioli cilfannau
- Gosod signalau ar gyffyrdd
- Mesurau blaenoriaethu cyffyrdd

Cynllun B



**Sut gaf i wybod mwy?**
Rydym yn cynnal y Digwyddiadau Gwybodaeth i'r Cyhoedd canlynol lle gallwch weld gwybodaeth bellach am y cynllun arfaethedig. Gallwch gwrdd â'n tîm prosiect a fydd yn ateb unrhyw gwestiynau gennych.

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth 5 Mawrth 2019 – 11:00 - 20:00 | Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy - Chester Road West, Queensferry CH5 1SA |
| Dydd Mercher 6 Mawrth 2019 – 11:00 - 20:00 | Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy - Chester Road West, Queensferry CH5 1SA |
| Dydd Llun 11 Mawrth 2019 – 16:00 – 19:30 | Ysgol Croes Atti, Plymouth Street, Shotton, Glannau Dyfrdwy CH5 1JD. |

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan www.siryfflint.gov.uk

**Sut allaf i wneud sylwadau?**

Rydym eisiau clywed beth yw eich barn am ein cynigion. Yna gallwn glywed eich barn a chynorthwyo i gyfeirio'r Awdurdod a Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol. Gallwch wneud sylwadau mewn sawl ffordd

- Llenwch yr holiadur ymgynghori ar ddiwedd y daflen hon a'i dychwelyd i Lee Shone, Cyngor Sir y Fflint, Depo Alltami, Ffordd yr Wyddgrug, Alltami, Sir y Fflint, CH7 6LG.

Llenwch ymatebion ar-lein ar:
https://digital.flintshire.gov.uk/EFORMS/EForms/EForm?service=Consultation%20Feedback%20Form

- Ewch i un o'r digwyddiadau gwybodaeth lle bydd copïau papur o'r ffurflen ymateb ar gael
- Email lee.shone@flintshire.gov.uk
- Ysgrifennwch at: Lee Shone, Cyngor Sir y Fflint, Depo Alltami, Ffordd yr Wyddgrug, Alltami, Sir y Fflint, CH7 6LG.

I helpu llunio ein dyluniad terfynol, cyflwynwch eich ymateb erbyn hanner nos Dydd Gwener 22 Mawrth 2019.

**Y Camau Nesaf**

Byddwn yn adolygu pob sylw ac awgrym unwaith y bydd y ffenestr adborth ymgynghori ar gau. Bydd rhain yn cael eu dadansoddi ac yn rhan o'r adborth angenrheidiol i gynorthwyo wrth gyfeirio'r Awdurdod a Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau i'r dyfodol.

Bydd y wybodaeth ddiweddaraf ar y cynlluniau arfaethedig ar gael yma:

www.siryfflint.gov.uk

**Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)**
Bydd Cyngor Sir y Fflint yn rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol y byddwch yn ei ddarparu fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Bydd eich data personol yn cael ei brosesu gan Gyngor Sir y Fflint at y diben penodol o ddelio gyda'ch ceisiadau. Mae angen prosesu eich data personol fel rhan o'n tasg gyhoeddus. Bydd Cyngor Sir y Fflint yn cadw eich data am 5 blynedd. Os bydd Cyngor Sir y Fflint yn cwblhau dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'n bosibl y byddwn yn comisiynu trydydd parti achrededig i ymgymryd â'r gwaith. Os ydych o'r farn bod Cyngor Sir y Fflint wedi cam-ddefnyddio eich data personol ar unrhyw adeg, gallwch anfon cwyn at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ymweld â'u gwefan neu drwy ffonio eu llinell gymorth ar 0303 123 1113.

I gael rhagor o wybodaeth am sut mae Cyngor Sir y Fflint yn prosesu data personol a'ch hawliau, edrychwch ar yr hysbysiad preifatrwydd ar ein gwefan:
http://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Contact-Us/Privacy-Notice.aspx

**Ffurflen adborth ymgynghori**

Rydym yn croesawu eich sylwadau ar y cynllun arfaethedig, ynghyd ag unrhyw bryderon ynghylch unrhyw faterion rydych yn dymuno eu codi. A fyddech cystal â llenwi'r ffurflen isod a'i dychwelyd i:

Lee Shone

Cyngor Sir y Fflint

Depo Alltami

Ffordd yr Wyddgrug

Alltami

Sir y Fflint

CH7 6LG

**Holiadur**

C1 Beth yw eich Cod Post?

C2 A yw'r cynigion yn effeithio ar eich eiddo?

| |
|---|
| Ydyn/Nac ydyn/ Ddim yn siŵr |

C3 Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar eich cynigion ar gyfer lôn fysiau benodol ar hyd y B5129 o Shotton Lane i Queensferry? Gweler gynllun A1, A2 ac A3

C4 Oes gennych unrhyw sylwadau ar ein cynigion ar gyfer Stryd Fawr Shotton? Gweler Cynllun B

C5 Oes gennych chi unrhyw sylwadau'n ymwneud â'r mesurau beicio arfaethedig?

C6 Oes gennych chi unrhyw sylwadau yn ymwneud ag adeiladu'r cynllun?

C7 Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill yn ymwneud â'r Lonydd Bysiau o Queensferry i Shotton Lane a'r cynigion ar hyd Stryd Fawr Shotton o'r Bont Reilffordd a Brook Road?